


Adnoddau newydd defnyddiol

www.amserbeibl.org: gwefan sy'n cynnig cyfres tair blynedd o wersi beiblaidd ar gyfer plant 5–7 oed, 8–10 oed, 11–13 oed ac 14+ oed. Enw'r cynllun yw AmserBeibl ac mae'r gwersi ar ffurf taflenni gwaith parod llawn hwyl gydag amrywiaeth o weithgareddau a phosau. Y nod yw dod â'r Beibl yn fyw a'i neges yn berthnasol ar gyfer ein hoes ni.

www.visionforchildren.com: gwefan sy'n cynnig detholiad o storïau beiblaidd Cymraeg ar ffurf PowerPoint. Rhaid clicio ar y ddraig goch i ddod o hyd i'r deunydd Cymraeg. Mae'r adnodd hwn yn lliwgar a deniadol ac yn gyfrwng effeithiol a chyfoes i gyflwyno hanesion y Beibl i blant. Bydd storïau eraill yn cael eu hychwanegu atynt o bryd i'w gilydd.

Mae'r adnoddau hyn yn rhad ac am ddim a byddant yn ddefnyddiol ar gyfer ysgolion Sul, clybiau Cristnogol, ysgolion a'r cartref.

Dehongli'r Damhegion (Elfed ap Nefydd Roberts)
Cyfrol o fyfyrddodau ar ddeg ar hugain o ddamhegion Iesu – adnodd gwerthfawr ar gyfer seiadau a dosbarthiadau beiblaidd yn ein heglwysi, ac ar gyfer myfyrdod personol.



Agor Iddo (Olaf Davies)
Casgliad o fyfyrddodau a gweddiâu ar gyfer y flwyddyn gyfan.



Swyddogion yr Ofalaeth

Cadeirydd: J T Brian Davies, Rhos, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JG;
betidavies@btinternet.com (01970 832239)

Is-gadeirydd: T. Arwyn Hughes, Gellinebwen, Capel Madog,
Aberystwyth, SY23 3JA (01970 880859)

Ysgrifennydd: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth,
SY20 8JH glannant@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 8 Mawrth:

Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel, Bow St



(01970 828026)

dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn, Bow St



(01970 828662)

marian_hughes@btinternet.com



Cyfres newydd, rhif 6

Calan 2009



*Pwy yw y rhain sy'n dod
I'r ddinas ar y bryn,
Yng ngolau'r seren glaer
Ar eu camelod gwyn?
Brenhinoedd dri yn ceisio crud
Brenin brenhinoedd yr holl fyd.*

I. D. Hooson

Annwyl ffrindiau,

Yr un yw'r olygfa o flwyddyn i flwyddyn, bob tro y cyflwynir Drama'r Geni gan y plant: tri brenin â choronau papur ar eu pennau, ac wedi'u gwisgo mewn gynau llaes i lawr at y traed. Cludant yn eu dwylo gasgliad rhyfedd o focsys a photeli, yn cynrychioli'r rhoddion a gludwyd at y preseb. Yn ôl traddodiad, y mae gan bob un o'r doethion ei enw a'i fywgraffiad bychan: Caspar, brenin Tarsus, yr ieuengaf o'r tri, oedd yr un a gludodd gist fechan yn llawn o thus (perarogl); Melchior, brenin Arabia, a roddodd aur i'r Baban Iesu; a Balthasar, brenin Ethiopia, yn ddu ei groen, a ddygodd fflasg o fyrr (olew) at y crud.

“Seryddion” yw'r enw a roddir amynt yn y Beibl Cymraeg Newydd. Ac yn wir, y mae bron yn sicr mai astrolegwyr oeddent, ac nid aelodau o deulu brenhinol. Ni ddywedir yn Efengyl Mathew faint yn union oedd eu nifer. Y mae'r ffresgos yn y catacwms, sef y mynwentydd tanddaearol yn Rhufain, yn portreadu pedwar. Mynnai Awstin Sant fod deuddeg ohonynt, pob un yn cynrychioli deuddeg llwyth Israel. Rhyw Bab yn yr ail ganrif a farnodd mai tri oedd eu nifer. Diau mai ef oedd yn iawn, gan mai tair rhodd a ddygwyd at y Baban. Ni wyddom eu henwau, nac o ble yr oeddent yn dod. Yr unig beth a ddywed Mathew yw mai seryddion o'r dwyrain oeddent. Ble'n union yn y dwyrain, nis gwyddom. Arabia neu Iran efallai? Yn wir, gallent fod wedi byw mewn unrhyw wlad, neu diriogaeth, i'r dwyrain o'r afon Iorddonen. Ni wyddom ychwaith a ddaethant ar gefn eu camelod gwyn. Ond y mae un peth yn sicr, haeddant gael eu galw'n “ddoeth”.

Gellir cynnig sawl rheswm. Yn gyntaf, yr oedd y doethion yn ddoeth, am eu bod yn barod i weithredu yn ôl y weledigaeth a gawsant. “Gwelsom ei seren ef yn y dwyrain, a daethom...” (Mathew 2:2). Diau y gwelodd eraill y seren ar ei chyfodiad, ond y doethion yn unig a'i dilynodd. Dros gyfnod y Nadolig eleni fe fydd y seren yn weladwy i bawb. Fe fydd yn weladwy hefyd ar hyd y flwyddyn newydd sydd yn ymestyn o'n blaenau. Ond faint ohonom tybed a fydd yn barod i'w dilyn hi yn ein meddyliau a'n calonau? Pa mor daer a fyddwn yn ceisio crud y Baban Iesu? Rhaid i'r gweld droi'n wneud os ydym am ganlyn Crist yn ein bywydau. Nid y goleuni a welwn, ond y goleuni a ddilynwn, a fydd yn ein gwneud yn ddoeth.

Cristnogaeth 21

“CAM RADICAL YM MYD CREFYDD”

Sefydlwyd gwefan Gymraeg newydd ar 1 Rhagfyr i drafod Cristnogaeth radical, gyfoes. Cafodd ei disgrifio fel ymgais gyffrous i ail-ddehongli Cristnogaeth ar gyfer yr oes bresennol, a bydd yn rhoi cyfle i bobl gyfnewid syniadau heb ddisgwyl unfuriaeth barn.



Meddai Vivian Jones, un o'r sefydlwyr, “Ymdrech yw *Cristnogaeth 21* i gynnal fforwm i roi llais i ystod eang o safbwyntiau diwinyddol Cristnogol er mwyn miniogi a chyfoethogi meddylfryd Cristnogol Gymraeg.”

Dywedodd Pryderi Llwyd Jones, “Rwy'n gweld y datblygiad hwn fel cam cwbl angenrheidiol i ddyfodol Cristnogaeth Gymraeg, wrth i ni greu cymuned ar y We a fydd yn medru trafod pynciau diwinyddol a moesol sy'n berthnasol i'n hoes ni.”

Sefydlwyd y wefan gan griw o weinidogion profiadol a lleygwyr sy'n teimlo bod y Gymru Gymraeg wedi dioddef yn ystod y blynyddoedd diweddar o ddiffyg trafodaeth eang ar natur Cristnogaeth yn ein dyddiau ni. Y teimlad ymhlith y sefydlwyr yw bod y ‘meddwl crefyddol’ yng Nghymru yn ofnus a mewnblyg, oherwydd mai dyna natur byw mewn cyfnod o gilio. Y gobaith yw y bydd hyn yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cyffrous – a rhai yn ei weld yn gam beiddgar – tuag at wneud Cristnogaeth radical a chynhwysol yn allweddol i ffydd gyfoes mewn cyfnod pan mae ceidwadaeth a chulni crefyddol ar gynydd.

Y bwriad yw cyhoeddi cyfres o erthyglau ar ystod eang o bynciau, gyda chyfle i ymateb a thrafod. Ymhlith y cyfranwyr cyntaf i'r wefan y mae John Gwilym Jones, D. Eirian Rees, Desmond Davies, Pryderi Llwyd Jones a Vivian Jones.

Mae'r wefan ar gael ar www.cristnogaeth21.org

Y Gerlan

Anfonir cyfarchion arbennig a'n dymuniadau gorau at ddau o'n plith y gwelir eu heisiau o'n hoedfaon, sef Camwy Williams a Brian Powell.

Cadwch yn gynnes



Mae cadw'n gynnes yn bwysig i bawb ac yn arbennig felly i'r rhai oedrannus neu fethedig nad ydynt yn ddigon heini a sionc i ennill eu gwres trwy 'gadw i fynd'. Bob gaeaf, wrth geisio arbed arian ar danwydd, mae llawer yn marw o effeithiau diffyg gwres.

Ein dyletswydd Cristnogol y gaeaf yma fydd ceisio cadw golwg ar yr henoed gan fod pris tanwydd wedi codi yn sylweddol a bydd yn demtasiwn ceisio arbed ceiniogau trwy gadw'r gwres i lawr. Gall *hypothermia* ddod ymlaen yn ddiarwybod os aiff gwres y corff i lawr gyda gwres tŷ. Argymhellir tymheredd o un gradd ar hugain Celsius (21 °C) i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu 'ennill eu gwres'.

Hefyd, mae llawer y gellir ei wneud er mwyn diddosi tai, o atal y gwynt rhag chwibanu tan y drws i insiwleiddio'r to, y ffenestri a'r waliau. Gall rhai o'r camau priodol fod yn gymharol rad ond mae eraill yn gostus iawn. Yn ffodus, mae'r Cynulliad yn fodlon rhoi cymhorthdal i rai pensiynwyr ac eraill i gwrdd â'r gost.

Gellir cael cyngor ar sut i ddiddosi tai neu ragor o wybodaeth am y cymorthdaliadau trwy gysylltu â Chyngor yr Henoed yn Aberystwyth, rhif ffôn 01970 615151. Mae ganddynt gydlynwyr yn lleol a all eich rhoi ar ben y ffordd ynglŷn â'r materion hyn. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

Eddie Jenkins

Ailgylchu stampiau a chardiau Nadolig

Bydd Grŵp Help Llaw'r Garn yn falch o dderbyn stampiau oddi ar unrhyw lythyrau/cardiau Nadolig i'w cyflwyno i Oxfam – cofiwch adael ymyl sylweddol o amgylch y stamp, tua ¼ modfedd o leiaf.



Hefyd, bydd bocs yn festri'r Garn tan ddiwedd Ionawr 2009 i dderbyn cardiau Nadolig i'w hailgylchu. Bydd y cardiau'n cael eu cyflwyno i fudiad Coed Cadw (Woodland Trust), a fydd yn defnyddio'r elw i blannu rhagor o goed i warchod yr amgylchedd.

Yn ail, yr oedd y doethion yn ddoeth, am eu bod yn barod i fentro. Antur enbyd ydoedd teithio yn yr hen fyd, ac nid lle i'r ofnus a'r gwangalon oedd yr anialwch. Hawdd iawn fyddai i anifeiliaid gwylltion, lladron, a masnachwyr caethweision ymosod arnoch a pheryglu eich diogelwch. Do, fe gymerodd y doethion risg go fawr yn ceisio canfod y baban o Waredwr. Cawsant eu hunain mewn gwaeth perygl pan alwasant ym mhalas y Brenin Herod yn Jerwsalem a cheisio ei gyfarwyddyd ar sut i ddod o hyd i'r Baban, ac yr oedd anwybyddu gorchymyn y Brenin wedyn ar iddynt ddychwelyd i'r llys i adrodd eu hanes yn peryglu'u heinioes. Fel y doethion, a wnawn ninnau fentro rhywbeth er mwyn Crist y Nadolig hwn, ac yn y flwyddyn newydd, – ein hamser efallai, ein cysur, ein dedwyddwch?

Yn drydydd, yr oedd y doethion yn ddoeth, am eu bod yn barod i blygu mewn defosiwn gerbron y crud. "Gwelsom ei seren ef yn y dwyrain, a *daethom i'w addoli ef.*" Nid mewn cywreinrwydd y daethant, nid er mwyn gweld sut un oedd y baban, ond daethant i'w addoli. "A phan ddaethant i'r tŷ, hwy a welsant y mab bychan gyda Mair ei fam; a hwy a syrthiasant i lawr, ac a'i haddolasant ef: ac wedi agoryd eu trysorau, a offrymasant iddo anrhegion; aur, a thus, a myrr" (Mathew 2:11). Fel y doethion, a fyddwn ninnau yr un mor barod i roi ein defosiwn i'n Harglwydd y Nadolig hwn, ac ar hyd y flwyddyn newydd? A wnawn ni dalu ein gwrogaeth iddo?

Beth a roddaf iddo,
llwm a thlawd fy myd?
Pe bawn fugail rhoddwn
orau'r praidd i gyd;
Pe bawn un o'r doethion
gwnawn fy rhan ddi-goll;
ond pa beth a roddaf?
Fy mywyd oll.

Christina Rossetti
cyf. Simon B. Jones

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas
Wyn Morris (Bugail)

Ffair Nadolig Chwiorydd y Garn

Rh	I	S	I	L	O	M	B	A	T
C	E	N	N	U	A	N	Ng	Y	H
A	S	M	A	I	R	E	Ch	E	U
B	U	G	E	I	L	I	A	I	D
E	W	Th	A	H	E	M	T	G	F
S	E	Y	T	S	E	W	G	J	U
E	A	G	M	O	B	L	Y	O	S
R	G	P	E	C	U	M	Th	S	Th
P	D	U	Y	N	M	A	B	E	C
E	O	I	T	A	I	U	A	Ff	B


 ** Llongyfarchiadau i **Ffion**
 ** **Evans**, Ysgol Sul y Garn,
 ** enillydd cystadleuaeth
 ** ‘Tudalen y Plant’ y tro hwn.

MAIR	GWESTY
JOSEFF	LLE
ANGEL	GENI
MAB	PRESEB
IESU	BUGEILIAID
BETHLEHEM	MOLI

Y tro yma, y gamp yw chwilio'r geiriau ac arwain Mair a Joseff at y stabl.

Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn **28 Chwefror**. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het.

Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.



Arwain Mair a Joseff at y stabl

Ffair Nadolig Chwiorydd y Garn



Dymuna Pwyllgor Chwiorydd y Garn ddiolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y Ffair Nadolig a gynhaliwyd yn Neuadd Rhydypennau fore Sadwrn, 29 Tachwedd.

Agorwyd y ffair gan Mrs Tegwen Pryse (a chofwyd yn arbennig am y Parch. Elwyn Pryse, a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd anhwylder) a chyflwynwyd blodau iddi gan Ifan ac Elain.

Diolch yn arbennig i'r rhai fu'n helpu ar y stondinau ac yn y gegin. Trosglwyd £1,000 o'r elw i goffrau'r eglwys.

Encilio

Mae Adran Ysbrydolrwydd Eglwys Bresbyteraidd Cymru yn casglu gwybodaeth am unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud ag encilio y mae aelodau'r enwad wedi eu trefnu neu eu mynychu.



Mae'r Adran yn pwysleisio pwysigrwydd encilio, a'r bwriad yw hyrwyddo mwy o gyfleoedd i Gristnogion encilio yn seiliedig ar yr hyn sydd eisoes yn digwydd mewn gwahanol fannau, yn ogystal â chynnig cyfleoedd newydd.

Felly, os ydych chi wedi cael profiad o gymryd rhan mewn encil neu yn awyddus i gynnig sylw ar bwnc encilio, byddai ysgrifenyddion eglwysi'r ofalaeth yn falch o dderbyn eich sylwadau neu eich awgrymiadau.

Bendithio Partneriaethau Sifil

Mae Panel Athrawiaeth ac Addoli Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi llunio dogfen drafod ar y pwnc uchod, a 'gofynnir i eglwysi ddynesu at y mater sensitif hwn mewn ysbryd agored ac mewn goddefgarwch Cristnogol, gan roi heibio pob rhagfarn'.

Os ydych am gael copi o'r ddogfen, cysylltwch ag ysgrifennydd eich eglwys neu gellir lawrlwytho copi oddi ar wefan Eglwys Bresbyteraidd Cymru (www.ebcwpc.org.uk).

Bydd swyddogion y Garn yn ystyried y ddau fater uchod yn eu cyfarfod ar 23 Ionawr 2009, ac felly byddent yn falch o unrhyw sylwadau erbyn y dyddiad hwnnw.

Dylai aelodau eglwysi eraill yr ofalaeth gysylltu ag ysgrifenyddion y gwahanol eglwysi am wybodaeth ynghylch y trefniadau i drafod y materion hyn yn eu heglwysi hwy.

Manylion Cyswllt y Gweinidog:

Y Parch Wyn Morris,

Berwynfa, Penrhyn-coch,

Aberystwyth, SY23 3EW

01970 820939

berwynfa@btinternet.com

Cyhoeddiadau'r Ofalaeth

- | | |
|------------|--|
| 14 Ionawr: | Gweithgor Ymgynghorol Cymdeithas 'Os Mêts' Ffestri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 21 Ionawr: | Cyfarfod o'r Henaduriaeth yn Llanbedr Pont Steffan am 2 o'r gloch |
| 1 Mawrth: | Oedfa Gŵyl Ddewi Plant yr Ofalaeth Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 2 Mawrth: | Cyfarfod Swyddogion yr Ofalaeth Ffestri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 19 Mawrth: | Gweithgor Ymgynghorol Cymdeithas 'Os Mêts' Ffestri'r Garn am 7 o'r gloch |

Cynhelir gwylnos
dan arweiniad
y Bugail
yng nghapel y Garn,
nos Fercher, 31 Rhagfyr,
am 11.30 o'r gloch.

Dewch i groesawu'r
flwyddyn newydd
mewn ysbryd o fyfyrdod
ac addoliad.



'Aelodau "Os Mêts" ar i fyny'

Cafwyd gweithgareddau amrywiol iawn drwy Dymor yr Hydref gyda nifer dda o ieuenctid yr ofalaeth yn cymryd rhan.

Yn Nhal-y-bont gyda Ruth Jên a Helen Jones cafwyd dechreuad llawn lliw celfyddyd.

Dathlwyd y cynhaeaf drwy swpera, gyda diolch i garedigion am ddarparu'r bwyd, yng nghwmni Aled Myrddin.



Cynhadledd Doha

Roedd yr adroddiad uchod wedi ei baratoi ar gyfer cynhadledd yn Doha ddiwedd mis Tachwedd a dechrau mis Rhagfyr. Cynhadledd uchelfri wedi ei threfnu gan y Cenhedloedd Unedig oedd hon i gyflwyno newidiadau i'r gyfundrefn ariannol fyd-eang er mwyn helpu'r gwledydd tlotaf, gyda'r bwriad penodol o'i gwneud hi'n anoddach i'r cwmnïau mawr osgoi talu'r trethi. Siomedig fu'r canlyniad. Gwasgodd Norwy, yr Almaen, Ffrainc a De Affrica am i'r newidiadau gael eu derbyn. Yr Unol Daleithiau arweiniodd y gwrthwynebiad.

Gweithio gyda phobl o ffydd wahanol

Trefnodd Cymorth Cristnogol, ar y cyd â Chymorth Islamaidd a Chymorth Iddewig Byd-eang, gynhadledd ynghylch cydweithredu rhwng pobl o wahanol ffydd, ddechrau Rhagfyr. Roedden nhw am chwalu'r myth mai dim ond gyda phobl o'r un ffydd â nhw roedden nhw'n gweithio, ac argyhoeddi pobl o bob ffydd o werth cydweithredu. Roedden nhw'n ymwybodol bod rhai pobl ym mhob cymuned ffydd yn gwrthwynebu'r syniad bod eu 'helusen nhw' yn ariannu gwaith gyda phobl o grefyddau eraill.

Llygredigaeth

Yr adroddiad diweddaraf i gael ei gyhoeddi yw'r adroddiad ar effeithiau difaol llygredigaeth a llwgrwobrwyo am ei fod bob amser yn difreinio'r tlodion. Mae'n digwydd ar bob lefel, rhwng unigolion a swyddogion llywodraeth, a rhwng cwmnïau amlwladol a llywodraethau, a'r cyfoethog sydd ar eu hennill bob tro. Mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef cyn y gellir trechu tlodi. Mae'n siwr y clwyn ni ragor am yr ymgyrch.

Dim ond crynodeb sydd yma o'r holl waith sy'n cael ei gyflawni. Os am wybod rhagor ewch i wefan Cymorth Cristnogol –

www.cymorthcristnogol.org



Mae swyddogion Cymorth Cristnogol wrthi'n brysur fel erioed yn helpu dioddefwyr mewn argyfyngau, yng ngwahanol rannau'r byd. Gallwn fod yn falch o'r gwaith ymarferol maen nhw'n ei wneud yn ein henw ni. Maen nhw hefyd yn gwneud ymchwil pwysig a defnyddiol, a bwriad yr ysgrif hon yw dod ag ychydig o wybodaeth am eu gwaith diweddaraf.

Prinder Bwyd

Ymhlith yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn y flwyddyn a aeth heibio mae'n debyg fod adroddiad Gorffennaf 2008 ar brinder bwyd, *Hungry for Change*, gyda'r pwysicaf. Prif neges hwn yw dangos sut mae polisïau'r gwledydd mawr cyfoethog yn effeithio ar dlodi a newyn yn y gwledydd tlotaf.

Yr Argyfwng Ariannol

Ym mis Tachwedd cyhoeddwyd *The Morning after the Night Before*, adroddiad ar effaith yr argyfwng ariannol byd-eang ar y gwledydd tlotaf. Rydyn ni yn y gorllewin bellach yn gorfod wynebu canlyniadau'r sbri o fenthycia rhad a gwario rhwydd y buon ni'n ei mwynhau ers blyneddoddedd, ac yn gorfod edrych ar ein cronfeydd pensiwn a'n cartrefi yn colli eu gwerth.

Ond fel gyda phob trychineb y bobl dlawd a bregus fydd yn dioddef waethaf, a hynny er na wnaethon nhw ddim i achosi'r argyfwng. Maen nhw eisoes yn gorfod wynebu'r cynnydd ym mhris bwyd ac ynni ar y farchnad ryngwladol. I wneud pethau'n waeth, mae'r gwledydd cyfoethocaf yn methu anrhydeddu eu hymrwymiad i gymorth ariannol, ac at hynny, mae'n hysbys bellach bod cwmnïau mawr rhyngwladol sy'n gweithio, ac yn gwneud elw, yng ngwledydd y trydydd byd, wedi bod yn osgoi talu trethi digonol, neu drethi o gwbl, i'r gwledydd bychain, tlawd. Yn ôl amcangyfrif Cymorth Cristnogol mae'r trethi a ddylai fod wedi eu talu mewn gwledydd sy'n datblygu yn cyfateb i 160 biliwn y flwyddyn o ddoleri'r Unol Daleithiau. Gallai hynny fod yn ddigon i achub bywydau 350,000 o blant dan bump bob blwyddyn.

Mae cais i ni ysgrifennu at y Prif Weinidog i gefnogi'r ymgyrch hon.



Daeth criw da o aelodau 'Os Mêts' i brofi eu dewrder yn dringo yng Nghanolfan Chwaraeon y Brifysgol ddechrau fis Tachwedd. Nododd arbenigwyr fod wiwerod campus yn eu plith.

Diwedd Tachwedd cafwyd hwyl yn herio gemau bwrdd o bob math yn Festri Capel Horeb.

Bowlio a mins peis yng Nghlarach oedd y gweithgaredd olaf cyn y Nadolig.



Bwriedir cael rhaglen yn un mor amrywiol a diddorol ar gyfer Tymor y Gwanwyn. Felly anogwn ieuencid yr ofalaeth i ddod i gymdeithasu yn 2009.

Astudiaeth Feiblaidd yr Ofalaeth

Er mwyn ceisio rhoi cyfle i fwy o bobl fynychu'r Astudiaeth Feiblaidd, bydd yn cael ei chynnal yn y prynhawn yn ogystal â gyda'r nos yn ystod y misoedd nesaf, fel a ganlyn:



6 Ionawr	Y Garn	2 o'r gloch
13 Ionawr	Rehoboth	7 o'r gloch
20 Ionawr	Y Garn	2 o'r gloch
27 Ionawr	Capel Seion	7 o'r gloch
3 Chwefror	Y Garn	2 o'r gloch
10 Chwefror	Gerlan, Borth	7 o'r gloch
17 Chwefror	Hanner tymor	
25 Chwefror	Y Garn	2 o'r gloch
3 Mawrth	Madog	7 o'r gloch
10 Mawrth	Y Garn	2 o'r gloch
17 Mawrth	Y Garn	7 o'r gloch
24 Mawrth	Y Garn	2 o'r gloch
31 Mawrth	Rehoboth	7 o'r gloch
7 Ebrill	Y Garn	2 o'r gloch

Noder y bydd y wers a gyflwynir yn y prynhawn yn y Garn yn cael ei hailgyflwyno yr wythnos ganlynol yn y nos.

Taer erfynnir am fwy o gefnogaeth i'r cyfarfodydd hyn – mae'r Bugail yn paratoi'n drylwyr ar ein cyfer ac mae'n haeddu gwell cefnogaeth.

Diolch yn arbennig i'r Bugail am weinidogaeth y Gair ac am ei ofal bugeiliol diflino dros holl aelodau'r ofalaeth yn ystod y flwyddyn.

Anfonwn ein cyfarchion at bawb yn eglwysi'r ofalaeth sy'n wael, gartref neu mewn ysbyty, yn ogystal â'r rhai sy'n gaeth i'w cartrefi neu yn cael gofal mewn cartrefi preswyl. Dymunir gwellhad llwyr a buan hefyd i'n cyn-weinidog, y Parchedig Elwyn Pryse, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty.

I'r Academi Frenhinol yn Piccadilly y casglwyd arteffactau o nifer fawr o leoedd megis gwlad Groeg, Cyprus, Twrci, Belgrad, yr Aifft, Fenis, Rwsia, ynghyd â nifer o eiconau o'r fynachlog hynaf sy'n dal yn weithredol, sef yr un ar Fynydd Sinai, y tro cyntaf yn wir iddynt adael eu cartref yno. Dyma arddangosfa sy'n olrhain hanes a dylanwad y traddodiad Cristnogol a ganolwyd ar Gaer Gystennin, sef 'Byzantium 330–1453'.



Cynrychiolir y traddodiad hwn heddiw, wrth gwrs, gan yr Eglwys Uniongred yn ei gwahanol ffurfiau yng Ngwlad Groeg a Cyprus, yn y Dwyrain Canol, ac yn Rwsia a'r gwledydd Slafaidd. Prif symbol y diwylliant hwn yw'r datguddiad o oleuni, goleuni Crist, ac y mae'r goreuro cyson a geir yn ei gelfyddyd yn arwyddo'r goleuni dwyfol. Yn y bedwaredd ganrif y sefydlodd yr ymerawdwr Cystennin ddinas ar y Bosporos a ddaeth i'w galw'n 'Rufain Newydd' ac wedi cwmp Rhufain yn 476 hi oedd prifddinas y byd Rhufeinig. Yn raddol datblygodd y traddodiad Cristnogol dwyreiniol ar wahân i'r un gorllewinol ac yn 1054 cafwyd y Sgism Mawr a olygodd rannu'r Eglwys Gristnogol yn ddwy, rhwyg sydd wedi parhau hyd heddiw. Bygythid Uniongrededd y Dwyrain yn gyson gan dwf Islam nes yn 1453 cwmpodd ei phrif ddinas i ddwylo'r Twrciaid Ottoman a'i henwi'n Istanbwl.

Wrth ymweld ag eglwys Fysantaidd honnir eich bod yn 'dod i mewn i nefoedd ar y ddaear' ac fe'i nodweddir â sgrin ym mhen draw'r eglwys, a thu hwnt iddi ceir yr allor, man hynod gysegredig na chaiff neb ond offeiriaid ei fynychu. Nodwedd amlwg arall y traddodiad hwn yw'r mynych eiconau, sef darluniau digon cyntefig i'n golwg ni, efallai, o Grist neu o'r saint, a'u pwrpas yw atgoffa'r addolwyr o bresenoldeb anweledig holl lu'r nef yn yr addoliad. Mae'r arddangosfa hon yn wir yn rhoi darlun byw inni o fawredd a chyfoeth y ffydd a gynrychiolir gan y traddodiad Uniongred sy'n dal mor ddylanwadol mewn gwledydd fel Groeg a Rwsia heddiw. Mae'r ddwy arddangosfa ar agor tan ganol mis Mawrth nesaf. Ceisiwch fynd i'w gweld. Cewch wledd i'r llygaid ac i'r meddwl.

John Tudno Williams

Babilon a Bysantiwm: dwy arddangosfa ddiddorol

Diwedd Tachwedd ymwelais â dwy arddangosfa yn Llundain o ddiddordeb i nifer o ddarllenwyr y cyfnodolyn hwn yn ddiu. Roedd y gyntaf yn yr Amgueddfa Brydeinig yn olrhain hanes a dylanwad Babilon yn yr hen fyd a hefyd yn dangos sut y parhaodd diddordeb ynddi hyd ein dyddiau ni. Ei theitl yw: 'Babylon: Myth and Reality'.

Dinas godidocaf yr hen fyd oedd Babilon yng nghyfnod Nebuchadnesar, y brenin a ddinistriodd Jerwsalem yn 587 C.C. ac a gaethgludodd nifer fawr o'r Iddewon, ac yn arbennig eu harweinwyr gwleidyddol a chrefyddol yno. Daethpwyd ynghyd â llawer o enghreifftiau o grefftwaith y cyfnod o'r Amgueddfa Brydeinig ei hun yn ogystal ag o'r Louvre ym Mharis ac o Berlin.



Eithr cyn darganfod yr arteffactau a'r dogfennau hyn gan archaeolegwyr y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif dibynnid ar destun y Beibl neu ar adroddiadau hen haneswyr Groeg am ein gwybodaeth am Fabilon. Canlyniad hyn oedd bod nifer fawr o chwedlau wedi'u gwasgaru amdani, megis y rhai am 'Erddi Crog Babilon' nad oes tystiolaeth ddibynadwy, hanesyddol am eu bodolaeth, neu am Dŵr Babel y mae darganfyddiadau archaeolegol wedi ei gadarnhau, neu am yr ysgrifen ar y mur adeg gwledd Belsassar.

Erys dylanwad Babilon arnom yn y modd yr ydym yn mesur amser gan mai ar y rhif 60 yr oedd eu mathemateg yn seiliedig. Roedd ynt hefyd yn hoff iawn o arbrofi gyda darogan y dyfodol. Ar ddiwedd yr arddangosfa dangosir ffilm o Fabilon heddiw, sydd, wrth gwrs, yn Irac. Gerllaw olion archaeolegol y ddinas wreiddiol roedd Saddam Hussein wedi adeiladu palas ysblennydd a defnyddiai byddinoedd y cynghreiriaid y safle hynafol hwn fel man glanio i'w hofrenyddion. Terfynir felly gyda phle am warchod yr hyn sydd ar ôl yn well i'r cenedlaethau a ddaw.



Damhegion yr Heuwr a'r Deg Gwahanglwyf gan aelodau Ysgol Sul Capel Seion



Y Gwir Oleuni

Er ein bod ar drothwy blwyddyn newydd, yng nghanol tywyllwch gaeaf da yw myfyrio ar englyn godidog O. M. Lloyd sy'n datgan fod goleuni Iesu Grist yn drech na phob tywyllwch:

Ganol gaeaf haf yw hi – ar saint Duw,
Rhoes ein Tad oleuni;
Wele yn awr ein haul ni,
Golau gwyn Gwyl y Geni.



Rwyf am gydio'r englyn wrth emyn nodedig T. Eirug Davies (1892–1951), Rhif 782 yn *Caneuon Ffydd*, emyn a gynhwysodd Alun ei fab yn ei bortread mewn llun a gair o'i dad yn y gyfrol *Eirug*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Ddwy flynedd cyn ei farw yn 59 oed cyhoeddodd Eirug ei emyn 'Y Gwir Oleuni' yn *Y Dysgedydd*, misolyn yr Annibynwyr y bu'n olygydd gwych iddo o 1943 hyd ei farw:

Dy olau Di, fy Nuw,
Yn wyneb Iesu mawr,
Yw f'unig obaith mwy
Ar dywyll ffyrdd y llawr;
Y sêr a'm llywiau dro,
Fe'u collais hwy i gyd
O dan gymylau braw
A'r niwl a guddiai'r byd.

Dilynais lawer llwybr
Wrth lamp fy neall gwan,
A disgwyl gweled trwy
Bob dryswch yn y man;
Mi wn yn awr nad oes
Oleuni ynof fi
Ond digon i ddyheu
Am ddydd Dy gariad Di.

Fy ngweddi fo am gael
Yr Iesu'n Arglwydd im,
Ac Ef yn bopeth mwy
A mi fy hun yn ddim;
Yn ddim ond llusern frau
I ddal Ei olau Ef,
I'm tywys heibio i'r nos
At fore claer y nef.

Cymdeithas Rehoboth



Cafwyd diwrnod braf iawn ar gyfer taith y Gymdeithas ar 20 Medi. Wedi teithio tua'r Bermo, aethom ymlaen i ymweld â chapel Salem, ger Dyffryn Ardudwy. Roedd un o'r aelodau yn disgwyl amdanom yno a chawsom ganddi hanes diddorol y capel a'r llun enwog o Salem gan Vosper.

Teithio wedyn i'r Las Ynys lle y ganed, y bu fyw, ac y bu farw Ellis Wynne (1671–1734), awdur *Gweledigaethu y Bardd Cwsc*. Roedd paned dderbyniol a chacen yn ein disgwyl yno, ac yna cawsom ein tywys o gwmpas y tŷ gan Elfed Roberts, ac unwaith eto, cawsom hanes diddorol y cartref hanesyddol hwn.

Teithio wedyn i Gricieth ac eistedd ger y traeth i fwyta ein cinio, gan fwynhau'r heulwen a'r golygfeydd godidog yr un pryd. Oddi yno aethom i ymweld ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy a gweld ei fedd ger afon Dwyfor. Arhoswyd yng ngwesty'r Grapes ym Maentwrog ar y ffordd adre, a chawsom bryd o fwyd ardderchog yno. Diolch i'r Parchedig Wyn Morris am drefnu'r daith, ac i bawb arall a gyfrannodd at fwynhad y diwrnod.

Rehoboth



Dydd Sadwrn, 13 Medi, yng Nghapel Rehoboth, Taliesin, priodwyd Sioned Menai Jones, merch hynaf Dilwyn a Carys Jones, Llys Eleri, Talybont (wyres y diweddar W. Llywelyn a Marion Edwards, Bron Rhiwel, Llandre) ac Alun Tobias, mab ieuengaf John ac Eunice Tobias, Capel Dewi, Caerfyrddin.

Gwasanaethwyd gan ein Gweinidog, Y Parchedig Wyn Morris, a'r Parchedig Glyn Tudwal Jones, Eglwys y Crwys, Caerdydd, gweinidog Alun. Cyfeiliwyd ar yr organ a'r delyn gan Llio Penri. Y morynion oedd Gwenan, chwaer Sioned, a Charlotte, nith Alun. Y gwas priodas oedd Arwyn Reed a'r ystlyswyr oedd Aled Jones ac Owain Thomas. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Plu Aberaeron. Treuliodd y ddau eu mis mêl yn teithio yn Ne'r Affrig ac Ynys Mauritius. Pob dymuniad da i'r pâr ifanc.

'Fe'i hysgrifemwyd,' meddai Dewi ei fab hynaf, 'gan un yn ei lesgedd a'i wendid a phopeth o'i gylch yn dihoeni ac ymddatod.' Mae'n chwilio a dyheu am angor mewn storm, am obaith mewn anobaith a goleuni yng nghanol tywyllwch.

Try at y sêr 'a'i llywiau dro' ond nid digon eu golau hwy i dreiddio drwy'r tywyllwch a'i goddiweddodd. Methodd 'lamp ei ddeall gwan' hithau ei gynnal yn y fagddu fawr. Ond daw adref – fel llong yn dod i'w hafan wedi'r storm ... A dim ond golau Duw yn wyneb Iesu Grist a all lewyrchu yn y tywyllwch, medd Ioan.

'Y cefndir personol a geir gan Dewi,' meddai Alun, 'ond credaf fod ochr arall i'r emyn. Yr oedd y blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd yn wawr "Yr Oes Atomig" a'r bom oedd y "cymylau braw a'r niwl a guddiai'r byd". Yr oedd gobaith yn diflannu a difodiant a wynebai yr ychydig bobl oedd yn cynnal gwareiddiad. Yr unig obaith oedd golau Duw yn wyneb Iesu mawr.'

A dyna'r unig obaith i ninnau ac i'n byd cythryblus ar ddechrau 2009. Y mae Paul yn Effesiaid 5:8 yn ein hannog i 'fyw fel plant y goleuni'.



Plant y Garn yn dilyn eu gwasanaeth Nadolig 'Pasio'r Parsel'

Grŵp Help Llaw y Garn



Gofalodd y Grŵp unwaith eto eleni fod Capel y Garn yn cymryd rhan yn ymgyrch Operation Christmas Child. Llanwyd 54 o focsys o anrhegion a chasglwyd £287.61 o arian nawdd, gan gynnwys casgliad Gwasanaeth Diolchgarwch yr ysgol Sul.

Diolch i bawb a gefnogodd yr apêl, ac i Bethan ac Eddie Jones am eu gwaith difflino gyda'r trefniadau.



Yn ystod cyfarfod o'r Gymdeithas Lenyddol nos Wener, 21 Tachwedd, cyflwynodd Kate Crockett dystysgrif i'r Grŵp Help Llaw am eu cyfraniad yn gweu 345 o hetiau babanod yn yr ymgyrch 'Gall eich het achub bywyd'.

Shân Hayward (828268)
(611502)

Bethan Jones



Gair o Fadog

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch ym mis Hydref dan arweiniad y Parchedig Nicholas Bee, ac yng nghwmni'r Parchedig Wyn Rhys Morris. Braff oedd gweld nifer o gyfeillion Cwm Main yn troi i mewn atom. Diolch i Mrs Betty Edwards ac Eirian Hughes am gyfrannu'r ffrwythau a'r blodau.

Agorwyd gweithgareddau tymor newydd y Gymdeithas ar 23 Hydref pan siaradodd y Bnr Wynne Melville Jones am ei fagwraeth yn Nhregaron, ac am ei addysg a'r dylanwadau lu a fu arno, gan gynnwys Cassie Davies, Norah Isaac ac R. E. Griffith. Soniodd yn ddfyr iawn am ei gamau cyntaf ym maes cysylltiadau cyhoeddus pan oedd yn gweithio gyda'r Urdd. Dyma gyfnod cyffrous Mr Urdd, y gonc annwyl a gipiodd galon pawb ar y pryd. Amlinellwyd hanes sefydlu cwmni StrataMatrix gan egluro'r math o waith a wneir gan y cwmni o'i bencadlys newydd ym Mhlas Gogerddan.

Y Bnr Cledwyn Fychan, Llanddeiniol, gynt o Maesmeurig, a oedd yn annerch y Gymdeithas ar 20 Tachwedd. Ei destun oedd Bleiddiaid yng Nghymru, pwnc sy'n ymestyniad o'i ddi-ddordeb yn hanes y ci Cymreig. Cafwyd noson ddiddan iawn, gyda lluniau, a lluniaeth ar y diwedd. Yr wythnos ganlynol, derbyniwyd gwahoddiad caredig i ymuno â Chymdeithas Llanilar lle roedd Hedd Bleddyn yn cynnal noson hwyliog. Bydd cyfeillion Llanilar yn dod atom Nos Iau, 15 Ionawr pan fydd y Bnr Erwyd Howells, Tŷ Capel, yn sôn am hanes Nant y Moch. Croeso i bawb o'r fro.

Gwelwyd eisiau cwmni Miss Alwen Griffiths yn ddiweddar, a dymunwn bob bendith iddi, a nerth i ymadfer.

Diolch, Eddie

Ar ddiwedd Rhagfyr 2008 bydd Mr Eddie Jones yn ymddeol o'i swydd fel rheolwr-oruchwyliwr mynwent y Garn. Rhoddodd Mr Jones flynyddoedd o wasanaeth trylwyr a diflino i'r swydd. Yn ystod y cyfnod hwn llwyddodd i gasglu llawer o arian er mwyn gwella cyflwr y llwybrau a chadw'r fynwent yn daclus. Bu iddo hefyd lunio cofrestr o'r beddau a gosod trefn bwrpasol yn ei lle ar gyfer gwaith gweinyddol materion yn ymwneud â'r fynwent. Yn wir, erbyn hyn mae popeth, gan gynnwys y gwaith gweinyddol a'r fynwent ei hun, yn batrwm o daclusrwydd i bwy bynnag fydd yn cymryd trosodd. Diolch, Eddie.

Yr ydym fel swyddogion yn awyddus i sicrhau olynnydd i ymgymryd a'r dyletswyddau gweinyddol hyn mor fuan â phosib. Os oes gan un ohonoch ddiddordeb neu os gwyddoch am rywun fyddai'n barod i ymgymryd â'r gwaith rhwng wybod i Alan Wynne Jones, Ysgifennydd yr Eglwys, neu unrhyw un o'r swyddogion eraill mor fuan ag sy'n bosib.

Mynwent y Garn

Diolch i bawb a fu'n gweithio i gadw'r fynwent yn daclus. Bydd angen help eto yn y gwanwyn i dorri'r iorwg sy'n gordyfu mewn manau. Diolch i Emllyn Rees am blannu blodau ac am rodd o ganllaw i hyrwyddo'r ffordd i'r llwybr uchaf.

Dymuniadau gorau i'r gofalwr newydd. Gwerthfawrogais bob cefnogaeth a gefais i ar hyd y blynyddoedd.

Eddie Jones

Ionawr

Blaenor y Mis: D. Bryn Lloyd

I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Eddie Jenkins

- 4 Parchedig Raymond Jones
Bugail
- 7 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
'Y Garn yn 150 yn 1983' – D. Bryn Lloyd
- 9 Cwrdd Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch
- 11 Tecwyn Jones
Noddfa yn uno yn y Garn
- 14 Gweithgor Ymgynghorol Cymdeithas 'Os Mêts'
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Noson gyda'r Prifeirdd' – Dafydd Pritchard a Huw Meirion
- 18 Bugail
Oedfa gymun yn y bore
- 23 Pwyllgor Swyddogion y Garn am 7 o'r gloch
- 25 Parchedig D. Harding Rees

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da:

i Catrin Jones, Pencefn, a Dan Bryant ar eu priodas yng ngwesty'r Falcondale, Llanbedr Pont Steffan, ddechrau mis Hydref;

i Sioned Rowlands a Manos Antoninis, ar enedigaeth mab, Iago, brawd bach i Harri.

Chwefror

Blaenor y Mis: Dewi G. Hughes

I gyfarch wrth y drysau: D. Bryn Lloyd / D. Elystan-Morgan

- 1 Dr Rhidian Griffiths
Noddfa yn uno yn y Garn
- 4 Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch
Siaradwr gwadd: Yr Athro Gruffydd Aled Williams
- 8 Parchedig M. J. Morris
Bugail
- 15 Bugail
Oedfa gymun yn y bore
- 20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
Noson o 'Hen Luniau' – Iwan Meical Jones, Dolau
- 22 Parchedig G. Madoc Jones
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn

Aelodau'r Garn a Noddfa yn cydaddoli

Yn ystod 2009 bydd cynnydd yn y cyfleoedd i aelodau'r Garn a Noddfa i ddod at ei gilydd i gydaddoli ar fore Sul. Gwelir y manylion yn y dyddiadur ac ar y wefan (www.capelygarn.org).

Gwerthfawrogrir cefnogaeth yr holl aelodau i'r trefniant newydd hwn, a hyderir y ceir bendith o gydaddoli.

Mawrth

Blaenor y Mis: D. Elystan-Morgan

I gyfarch wrth y drysau: Dewi G. Hughes / Marian B. Hughes

- 1 Oedfa Gŵyl Ddewi Plant yr Ofalaeth am 10 o'r gloch
- 2 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth
Festri'r Garn am 7 o'r gloch
- 4 Cymdeithas y Chwiorydd am 2.30 o'r gloch
Dathlu Gŵyl Ddewi
- 8 Richard Llwyd Jones
- 15 Bugail
Oedfa gymun ym Methlehem yn yr hwyr
- 20 Cymdeithas Lenyddol y Garn
Ymweliad â'r Drwm, y Llyfrgell Genedlaethol
'Hen Ffilmiau Cymreig'
- 22 Parchedig Ifan Mason Davies
Oedfa'r bore yn Noddfa; oedfa'r hwyr yn y Garn
- 29 Parchedig J. E. Wynne Davies



*Arglwyddi, frodyr a chwiorydd, byddwch
lawen a chedwch eich ffydd a'ch crefydd,
a gwnewch y pethau bychain a glywsoch
ac a welsoch gennyf fi.*

Dewi Sant